



DARGANFOD HEN DAI CYMREIG DISCOVERING OLD WELSH HOUSES



NODDWYR/PATRONS:

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas, CG, AC; Sir Simon Jenkins, FSA, FRSL; Dr Eurwyn Wiliam, MA, PhD, FSA

Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.

Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.

CYLCHLYTHYR 28 Mawrth 2019

NEWSLETTER 28 March 2019

EIN GWEFAN <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> yw prif sianel gyfathrebu'r grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

OUR WEBSITE <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

GAIR O'R GADAIR

Wel, mae'r gwanwyn ar gyrraedd ac fel Pererinion Enlli gynt rydym yn meddwl am gyrchfan i'n denu. Gwelaf fod teithiau hynod o ddiddorol yn cael eu trefnu ar gyfer ymweld â sawl tŷ hyfryd er mwyn cael syniad dethol o'i nodweddion arbennig. Dyma un o fanteision arbennig o fod yn aelod, a rhaid i mi ddiolch i bawb a fu ynglŷn â'u trefnu am lunio taith mor arbennig o ddiddorol. Fel yr ydym i gyd yn dysgu mwy am hen dai a'u cynddeiliaid, credaf fod hyn yn hybu ein brwdfrydedd i'w hanwylo a'u gwarchod. Gobeithiaf y cewch gyfle i gymryd rhan!

Richard Cuthbertson, Cadeirydd

FROM THE CHAIR

Well, Spring is nearly here and like Chaucer we all turn our minds to Pilgrimages. I see there are most interesting trips being organised to visit many beautiful houses to get exclusive insights to their special features. This is one of the great advantages of being a member, and I must thank all those involved in their organisation for helping to provide such an interesting itinerary. As we all learn more about the old houses and their past occupants, I think it increases our enthusiasm to cherish and look after them. I hope you get the chance to take part!

Richard Cuthbertson, Chairman



Dyffryn Dyfrdwy 1533/4, a pharlwr 1550/1 / Dee Valley 1533/4 and 1550/1 parlour



Sir y Fflint, gwanwyn 1465 / Flintshire, spring 1465.

NEWYDDION DIWEDDARAF GAN YR YSGRIFENNYDD

Grantiau 2018-19. Ers ein Cylchlythyr diwethaf rydym wedi derbyn grant o £1,500 gan Gymdeithas Archeolegol Cambria ac rydym yn hynod ddiolchgar am hyn. Daw hyn â'n cyfanswm blynyddol i tua £15,500. **Dyddio Blwyddgylchau.** Yn gynnar yn Chwefror ymwelodd arbenigwyr o Labordy Dendrocronoleg Rhydychen â thai ym Meirionnydd a G.Ddn Cymru. Aseswyd 13 tŷ, yn bennaf rhai nenfforch, ond nid oeddynt yn addas ar gyfer eu samplu. Ond fe samplwyd 2 arall. Roedd Llennyrch, ar gynllun Tŷ Eryri, ym Meirionnydd ac iddo goed a dorwyd rhwng 1542 a 1569. Nid oedd yn bosibl dyddio coed Plas Ynghoed Drwg, ger Corwen. Bu **cofnodi pensaernïol** yn 1 a 2 Heol y Dŵr, Caerwys, lle roedd dyddiad cwmpo yr adeilad nenfforch yn 1465.

NEWS UPDATE FROM THE SECRETARY

Grants for 2018-19. Since our last Newsletter we have obtained a £1,500 grant from the Cambrian Archaeological Association, for which we are most grateful. This makes our annual total c£15,500. **Tree Ring Dating.** In early February Oxford Dendrochronology Laboratory specialists visited houses in Merioneth & N E Wales. 13 houses, mainly crucks, were assessed but were not suitable for sampling and 2 others were sampled. Llennyrch, a Snowdonia-plan house in Merioneth, had timbers felled between 1542 and 1569. Timbers in Plas Ynghoed Drwg, near Corwen could not be dated. **Architectural recording** was undertaken at 1 & 2 Water Street, Caerwys, where the felling date for the cruck-framed building was 1465.

Mae **Marciau gwrthfelltithiol** (sy'n cadw draw ddyrgioni) yn parhau i fod o ddiddordeb mawr i'r grŵp ac fe hoffem wybod lle y cawn afael arnynt.

Trysorydd DHDC: Rydym yn hynod falch fod ein trysorydd presennol wedi cytuno i aros yn y swydd am un flwyddyn arall, a bod rhywun arall wedi cytuno i gymryd y swydd hanfodol hon o Ebrill 2020. Mae **Gweithgareddau allanol** yn parhau: ers Rhagfyr rhoddwyd tair sgwrs arall i sefydliadau ar draws gogledd Cymru, gan rannu ein gweledigaeth a'n canlyniadau â thua 100 o bobl. Deliwyd â sawl chwestiwn ac ymwelwyd â nifer o dai mewn ymateb i sawl ymholiad gan berchenogion.

Mae **Canghennau** yn cynnal amrediad o ymweliadau, sgyrsiau a digwyddiadau ac mae canghennau diwygiedig Môn ac Eryri yn dal i ddenu aelodau newydd. Mae ymweliadau i dai sy'n newydd i ni yn ardaloedd Sir y Fflint a Wrecsam wedi hybu diddordeb yn ein gweithgareddau a gobeithiwn sefydlu cangen yn Wrecsam yn fuan. Mae nifer o hanesion tai yn cael eu hymchwilio yn barod ar gyfer ein gwefan. Gellir diweddarau'r rhain os darganfyddir gwybodaeth newydd. Mae sawl cangen wedi cyd-drefnu ymchwil gwaith desg ar gyfer **Prosiect Mapio Plwyfi** sy'n ffurfio cronfa ddata gynhwysfawr er mwyn cael astudiaeth lawnach o hen dai ar draws gogledd Cymru. Bydd hyn yn ffocws o bwys wrth i ni gadarnhau ein darganfyddiadau a pharatoi i ymweld â rhagor o hen dai.

Bydd **CCB 2019 (2yp)** a **Darlith Gyhoeddus (3yp)** yn cael eu cynnal ar Sadwrn 29 Mehefin yn y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, sef yng Nghanolfan Parc Cenedlaethol Eryri. Fe draethir y ddarlith **"Adeiladu â nenffyrch yng Nghymru – 1306 hyd at 1626"** gan Richard Suggett, Uwch Ymchwilydd, Adeiladau Hanesyddol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Aberystwyth.

Margaret Dunn



Wrecsam

OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI ond ddim eto yn aelod, pam na ystyriwch ymuno â'r Grŵp? Ysgrifennydd Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson 01824 704 404, membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk
Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, yr Ysgrifenyddes: 01766 890 550, secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk

Apotropaic marks (thought to ward off evil) are still of great interest to the group & we would like to know where they can be found.

DOWH Treasurer: We are delighted that our current treasurer has agreed to stay on for one more year, and that someone has offered to then take over this crucial role from April 2020. **Outreach** continues: 3 more talks have been given to organisations across north Wales since December, sharing our vision & results with around 100 people. Many queries have been dealt with & several house visits undertaken in response to owners' enquiries.

Branches hold a range of visits, talks & events, & the revived Anglesey & Snowdonia branches continue to attract new members. Visits to fresh houses in the Flintshire & Wrexham areas have raised interest in our activities & we hope to establish a Wrexham branch soon. Many house histories are being researched ready for our website. These can be updated if new information is discovered.

Several branches have started co-ordinating desk-top research for the **Parish Mapping Project** to form a comprehensive database to enable better coverage of old houses across north Wales. This will be an important focus as we consolidate our discoveries and prepare to visit further old houses.

The 2019 AGM (2.00 p.m.) & Public Lecture (3.00 p.m.) will be held on Saturday 29th June at Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, the Snowdonia National Park Centre. The lecture **"Building with crucks in Wales – 1306 to 1626"** will be given by Richard Suggett, Senior Investigator, Historic Buildings, the Royal Commission on the Ancient & Historic Monuments of Wales, Aberystwyth.

Margaret Dunn



Wrexham – ni ellid ei ddyddio / neither house could be dated.

IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES and are not already a member, why not consider joining the Group? Membership Secretary is Ms Zoë Henderson 01824 704 404. membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk
For further information contact Margaret Dunn, secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

DIGWYDDIADAU CANGEN

Archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer@ £2. Rydym yn hynod ddiolchgar i berchenogion tai am eu lletygarwch.

CANGEN MÔN. Cyswllt â Sue Hurst 01407 459 319 (Sylwch ar ei ebost newydd):

anglesey@discoveringgoldwelshhouses.co.uk.

Dydd Iau Ebrill 4 zyp Prosiect Mapio Plwyfi – gweithdy yn Archifau Llangefni yn olrhain pob hen dŷ ar Ynys Môn: pam a sut y gallwn goladu manylion amlinellol hen dai ymhob plwyf. Dowch i ddysgu'r technegau. £2 y pen. Dowch â lluniaeth.

Dydd Mawrth Mai 21 zyp Ymweld â Dinam ac i Eglwys Llangaffo. Fe'i hadeiladwyd tua diwedd C17, ac ailfodelwyd y tŷ c1715-20 pan ailstrwythurwyd pen draw y parlwr a chodwyd y llawr uwchben. Nifer mwyaf: 20 person. Cost £2 y pen.

Mehefin 18 2.15yp. Sgwrs a thaith o amgylch Eglwys Ein Boneddiges Seren y Môr a Santes Gwenfrewi, Amlwch (gradd II* 20fed ganrif). Lluniaeth ysgafn yn neuadd yr eglwys am £2 y pen.

Dydd Sadwrn Gorffennaf 20fed: Hanner Dydd – 5yp. Diwrnod agored ym Mhlas Penmynydd, Llangefni. Sgwrs a theithiau gydol y prawn. Lluniaeth ysgafn. Tâl mynediad £5. Yn gysylltiedig â Gŵyl Archeoleg CBA.

CANGEN CONWY. Cysylltu â Gill Jones 01492 517 330

gjulas@doctorbones.org

Iau Mai 16eg - 10.30 yn Neuadd Caerhun. Mae'n angenrheidiol archebu drwy fod y nifer yn gyfyngedig.

Iau Mehefin 20fed – Ymweld â Dolwyddelen i weld gweddillion Tai Penmaen, eglwys Santes Gwyddelen a ffynnon Elen. Cyfarfod am 1.00yp yn y llecyn picnic ger yr orsaf drên.



Meirionnydd / Merioneth, 1542-69

CANGEN SIR DDINBYCH. Cyswllt Janice Dale 01490 440 427

jadale22@hotmail.co.uk

Mawrth 19eg zyp yn Hafod y Calch - cyfarfod cyffredinol dal i fyny.

Mai 1af amser i'w gadarnhau. Cerdded o amgylch tref Dinbych gyda Tony Schärer.

Diwedd Mai – Ymweld â Llansilin; amser i'w gadarnhau – tŷ/eglwys/pentref.

CANGEN LLANSILIN. Cysylltwch â Mary Cunnah marycunnah@yahoo.co.uk. Mae'r grŵp yn cyfarfod ar yr ail ddydd Llun o bob mis am 2yp yn Stafell y Plwyf, Eglwys Llansilin. Lluniaeth ar gael.

BRANCH EVENTS

Book with branch contacts, usually £2. We are very grateful to house-owners for their hospitality.

ANGLESEY BRANCH. Contact Sue Hurst 01407 459 319 (note new contact email):

anglesey@discoveringgoldwelshhouses.co.uk

April Thurs 4th 2.00 p.m. Parish Mapping Project - a workshop at Llangefni Archives tracing all old houses on Anglesey: why & how we can collate outline details on old houses in every parish. Come and learn the techniques. £2 per head. Bring refreshments.

May Tues 21st 2.00 p.m. visit to Dinam & to Llangaffo church. Built in the late C17, the house was remodelled c1715-20 when the parlour end was reconstructed and the floor above it raised. Max 20 people. Cost £2 per head.

June 18th 2.15pm. Talk and tour of Our Lady Star of the Sea and St Winefride Church, Amlwch (grade II* 20th-century). Light refreshments in the church hall, £2 per head.

July Sat 20th: Noon – 5 p.m. Open Day at Plas Penmynydd, Llangefni. Talk & tours throughout the afternoon. Light refreshments. Entry £5. Linked with the CBA Festival of Archaeology.

CONWY BRANCH. Contact Gill Jones 01492 517 330

gjulas@doctorbones.org

Thurs May 16th - 10.30 at Caerhun Hall. Booking is essential as numbers are limited.

Thurs 20th June - Visit to Dolwyddelan to see the Tai Penamnen houses (remains of), St. Gwyddelen's church and Elen's well. Meet at 1.00pm at the picnic area near the train station.



Dyffryn Dyfrdwy – ni ellid ei ddyddio / Dee valley – could not be dated

DENBIGHSHIRE BRANCH. Contact Janice Dale 01490 440 427

jadale22@hotmail.co.uk

March 19th 2pm at Hafod y Calch - general catch-up meeting.

1st May time to be confirmed - Walk about Denbigh town with Tony Schärer.

End of May - Visit to Llansilin; time to be confirmed - house/church/village.

LLANSILIN BRANCH. Contact Mary Cunnah, marycunnah@yahoo.co.uk. The group meets on the second Monday of the month at 2pm in the Parish Room, Llansilin Church. Refreshments.

CANGEN MEIRIONNYDD. Ysgrifennydd Meirionnydd wedi tynnu'n ôl ac felly o ganlyniad bydd digwyddiadau Meirionnydd yn debygol o gael eu cyfyngu, Fodd bynnag, bydd y cwrs diwrnod ar "Y Camau sylfaenol mewn cofnodi adeiladau" a ganslwyd yn Chwefror yn cael ei aildrefnu, ac yn hwyrach y flwyddyn hon.

Bydd **Partneriaeth Dolgellau** yn lansio prosiect yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn gofyn i drigolion lleol ddod ymlaen gyda gwybodaeth am hanes eu tai. Fe all y bydd y Prosiect angen gwirfoddolwyr o GDHDC i gynnig help – daw mwy o wybodaeth gyda hyn.

Bydd **Archifau Dolgellau** yn dal ar agor yn arbennig ar gyfer aelodau GDHDC, ar y dydd Mercher cyntaf ym mhob mis o 9.30yb hyd 12.30yp. Mae hyn o fudd i'r grwpiau sy'n ymchwilio i dai ac ar gyfer dechreuwyr sydd angen cymorth i allu dechrau.

Bydd **Prosiect Plwyfi Meirionnydd** yn parhau. Mae'n amcanu i ddarganfod tai cyn-1700 sydd heb eu darganfod ar Coflein a ffynonellau tebyg eraill. Os ydych â diddordeb yn y prosiect hwn y gellir ei wneud ar gyfrifiadur gartref- cysylltwch â john@thetownsends.org.uk.

CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU cyswllt:

Margaret neu Wally Barr magsbarr@yahoo.co.uk; wallybarr@yahoo.co.uk, y ddau ar 01745 888 622.

Archebwch ddigon ymlaenllaw gan fod lle yn gyfyngiedig.

Iau Ebrill 18 2yp Ymweliad â thŷ a chyfarfod yn Fferm Adwy o'r 16 ganrif yng Nghoed-poeth.

Dydd Mawrth 28 Mai 2yp Ymweliad a thaith drwy Neuadd Mostyn, Mostyn o'r 15ed ganrif.

Mercher 12 Mehefin 2yp Ymweliad â thŷ a chyfarfod yn Nhŷ Cerrig, Rhuthun, dyddiedig hyd at 1501.



Sir y Fflint – ni ellid ei ddyddio / Flintshire – could not be dated

CANGEN ERYRI. Cyswllt: Ann Alston: 01758 750 322

snowdonia@discoveringgoldwelshhouses.co.uk Book online: <http://discoveringgoldwelshhouses.co.uk/english/visits.html>

Iau 11eg Ebrill 2yp Prosiect Mapio Plwyfi: gweithdy ym Mharc Glasfryn, Y Ffôr. Amlinellu yr holl hen dai yn Sir Gaernarfon – Pam? A sut y gallwn goladu manylion amlinellol ar yr holl dai ymhob plwyf. Dowch i ddysgu'r technegau. £2 y pen. Bydd lluniaeth ar gael.

Llun 13eg Mai 2yp Cochwillan ger Bangor. Neuadd-dŷ mawr mae'n debyg o ddiwedd y 15ed ganrif. Nifer mwyaf 25. Dowch â phicnic £2 y pen.

Iau 16eg Mehefin 2yp Taith dan arweiniad o dŷ a gerddi

MERIONETH BRANCH. The Merioneth Secretary has stood down. So, for the next few months Merioneth events are likely to be restricted. However, the day's course on 'Basic steps in building recording' (cancelled in February) will be rescheduled for later this year.

The **Dolgellau Partnership** will launch a project later in the year asking local residents to come forward with information about the history of their houses. The Project might need volunteers from Merioneth DOWHG to help – further information in due course.

Dolgellau Archives remain open especially for DOWHG members on the first Wednesday in each month from 9.30am to 12.30pm. This is useful for groups doing house research and for beginners who need help to get started.

The **Merioneth Parishes Project** will continue. It aims to find pre-1700 houses which have not been found on Coflein and other similar sources. Anyone interested in this project – which can be undertaken on a computer at home – please contact john@thetownsends.org.uk.

NORTH EAST WALES BRANCH. Contact Margaret or Wally Barr 01745 888 622 magsbarr@yahoo.co.uk wallybarr@yahoo.co.uk. Please book in advance.

Thurs 18 Apr 2pm House visit and meeting at 16th century Adwy Farm, Coedpoeth.

Tues 28 May 2pm Visit and tour of 15th century Mostyn Hall, Mostyn.

Wed 12 Jun 2pm House visit and meeting at Ty Cerrig, Ruthin, dated to 1501.



Rhuthun / Ruthin, 1501

SNOWDONIA BRANCH. Contact: Ann Alston: 01758 750 322 snowdonia@discoveringgoldwelshhouses.co.uk Book online: <http://discoveringgoldwelshhouses.co.uk/english/visits.html>.

April Thurs 11th 2 p.m. Parish Mapping Project: A workshop at Parc Glasfryn Park, Y Ffor. Tracing all old houses in Caernarfonshire - Why? & how we can collate outline details on old houses in every parish. Come and learn the techniques. £2 per head. Refreshments will be provided.

May Mon 13th 2 p.m. Cochwillan, near Bangor. Large hall house probably late 15th century. Max 25. Bring a picnic. £2 per head.

June Thurs 13th 2 p.m. Guided tour of Wern Manor house &

Maenordy'r Wern (yn cael ei adnewyddu), Pentre Felin. Nifer mwyaf 20. Dowch â phicnic Cost y pen £5.

Dydd Mawrth Gorffennaf 16eg 11yb – 5yb 2000 mlynedd o hanes yn nyffryn Nantgwynant, Eryri. Teithiau dan arweiniad hanner dydd, 2 a 4yp. Dowch â phicnic. Rhan o Wyl Archeoleg CBA. £5 y pen

COFIWCH

Fod yr holl dai y sonnir amdanynt yn y Cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â DHDC yn eiddo preifat ac felly NID ydynt ar agor i'r cyhoedd. Gall aelodau gymryd rhan mewn unrhyw ddiwyddiad mewn unrhyw gangen, yn ogystal ag yn eu cangen eu hunain. Holwch gysylltydd y gangen dan sylw.

PWY ADEILADODD Y Tŷ HWN? BONHEDDWR, IWMON NEU WERINWR?

Yng Nghymru wedi cyfnod y canoloesau, defnyddid y teitlau **syr, yswain, bonheddwr** a **mister** yn aml yn hierarchaidd. Y marchogion yn defnyddio'r teitl 'syr'; meibion Arglwyddi neu Farchogion, neu uchelwyr o dras cymdeithasol uchel yn defnyddio 'yswain'; a 'bonheddwr' fel arfer o rengoedd isel y dosbarth o uchelwyr; roedd y rhai a fabwysiadai y teitl 'Mr' yn bennaf yn iwmyr cyfoethog. Yn arrolwg Edward Llwyd c1699 yn Llanellian yn Rhos, mae'r hierarchaeth hon yn amlwg. Yn y rhestr o 'dai o bwys,' fe geid y rhestr hyn: Thomas Holland **ysw.** o Deirdan; John Wyn **bonheddwr** o Goed Coch; a Richard Parry **iwmon** o Dan y Llan.

Yn draddodiadol, roedd yr ysweiniaid a'r bonheddwyr yn byw ar eu buddsoddiadau a'r rhenti a ddeuai o'u stadau, tra roedd yr iwmyr yn ffermwyr ac weithiau'n wŷr busnes. Bu'r plâu a chwalfa gyflym y system o ddaliad tir a ddibynnai ar berthnasau yn y 14edd ganrif yn fodd i esblygu marchnadoedd ar gyfer tir a chynnyrch. Cymerodd llawer o iwmyr fantais o hyn. Cymerasont dir, a gwerthu, a chyfnewid a masnachu'r cynnyrch a oedd ganddynt yn weddill. Roedd nifer ohonynt yn llythrennog ac yn anfon eu meibion i'r ysgolion gramadeg newydd ac i'r prifysgolion ac i Neuaddau'r Frawdlys. Aeth rhai iwmyr yn gyfoethocach na'r is uchelwyr, ond fe barhaodd yr hierarchaeth. Pan apwyntiwyd John Davies, masnachwr cyfoethog o Landderfel, yn Y.H., gwrthododd rhai o'i gydynadon o reng yr uchelwyr eistedd gydag ef am ei fod yn 'ddim ond masnachwr'.

Ni fu erioed drefn aristocrataidd yng Nghymru y gellid ei chymharu o ran graddfa i'r un yn Lloegr. Ychydig o'r uchelwyr trefeddiannol yng Nghymru Cyfnod Elisabeth a oedd â'r cyfoeth a'r rhwysg i gyfateb i rai rhengoedd uwch o uchelwyr Lloegr. Mae'r tai yn Lloegr a oedd wedi eu priodoli i iwmyr yn aml yn debyg iawn o ran maint i dai yng Nghymru a labelir hwy fel 'tai gwerinwyr'. Roedd y ffermwyr a'r bythynwyr tlotaf, y gellid mae'n debyg eu galw'n gyfreithlon yn 'werinwyr', yn denantiaid na oroesodd drwy ffermio ymgynhaliol. Roeddynt yn byw mewn anheddiadau diymhongar sy'n llai tebygol o fod wedi goroesi.

O'n hymchwil yng Nghonwy a Gogledd Sir Ddinbych, dim ond un tŷ, hyd yn hyn a ellir mae'n debyg ei ddisgrifio fel tŷ 'gwerinol' – Blaen Glasgwm Uchaf ym Mhenmachno wedi ei ddyddio i aeaf 1519/20. Mae bron yn bendant iddo gael ei adeiladu gan warantwr a ryddhawyd. Yn wreiddiol roedd yn neuadd-dŷ syml o gerrig gydag aelwyd ganolog a chrogllofft.

gardens (under restoration), Pentre Felin. Max 20. Bring a picnic. Cost £5 per head

July Tues 16th 11 a.m. - 5 p.m. 2000 years of history in the Nantgwynant valley, Snowdonia. Guided walks at noon, 2 & 4 p.m. Bring a picnic. Part of the CBA Festival of Archaeology. £5 per head.

REMINDERS

Houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWH are private and are NOT open to the public.

Members may participate in any branch event, not only their own. Check with branch contact.

WHO BUILT THIS HOUSE? GENTLEMAN, YEOMAN OR PEASANT?

In post-medieval Wales, the titles **sir, esquire, gent.** and **Mr.** were often used hierarchically. Knights used the appellation 'sir'; the sons of Lords or Knights, or gentry of high social rank used 'esquire'; and 'gentleman' were generally from the lowest ranks of the gentry class; those adopting the title 'Mr.' were mostly wealthy yeomen. In Edward Lhuyd's survey c.1699 in Llanellian yn Rhos, this hierarchy is evident. In the list of 'houses of note', there are the following entries: Thomas Holland **esq.** of Teirdan; John Wyn **gent.** of Coed Coch; and Richard Parry **yeoman** of Tan y Lhan.

Esquires and gentlemen traditionally lived off their investments and the rents from their estates, whereas yeomen were farmers and sometimes businessmen. Plagues and the breakup of the Welsh kindred-based system of land-tenure accelerated in the 14th century and as a result, markets evolved for both land and produce. Many yeomen took advantage of this. They acquired land, and sold, bartered and traded their surplus produce. Many were literate and sent their sons to the new grammar schools and to the universities and inns of court. Some yeomen became wealthier than the minor gentry, but the hierarchy remained. When John Davies, a wealthy merchant from Llandderfel was appointed as a J.P., some of his fellow magistrates from the ranks of the gentry refused to sit with him because he was a 'mere tradesman'.

Wales has never had an aristocratic order which could compare in scale to that in England. Few of the Welsh landed gentry in Elizabethan Wales had the wealth or pretensions to match those of the higher ranks of the English nobility. Houses in England which have been ascribed to yeomen are often very similar in size to houses in Wales which are labelled as 'peasant houses'. The poorer farmers and cottagers, who could perhaps be legitimately called 'peasants' were tenants who survived by subsistence farming. They lived in humble dwellings which are less likely to have survived.

From our research in Conwy and North Denbighshire, only one house, so far, can perhaps be described as a 'peasant' house - Blaen Glasgwm Ucha in Penmachno - dated to the winter 1519/20. It was almost certainly built by a freed bondsman. It was originally a simple, stone-walled hall-house with a central hearth and crogllofft.



Pwy adeiladodd hwn? / Who built this?



Tŷ gwerinwr? / A peasant house?

Mae'r tai eraill a ymchwilwyd iddynt hyd yh hyn yng Nghonwy a Dyffryn Clwyd, y mwyafrif ohonynt yn fawr mwy na ffermdai mawr, wedi eu codi gan aelodau 1.) o'r uchelwyr Cymreig 2.) disgynyddion y sefydlwyr Seisnig a oedd wedi mewnbriodi i'r uchelwyr lleol 3.) iwryn, ond yn sicr ddigon ddim gan werinwyr. Roedd gan y teuluoedd nifer o ganghennau o gadlanciau ac roedd rhai wedi gallu sefydlu eu stadau bach eu hunain. Eraill, y rhai nad oeddynt cystal eu byd, yn gorfod cael rhywfaint o'u hincwm o ffermio. Buasai hyn wedi eu gwneud bron yn anwahanol i'r iwmon cyfoethocach.

Drwy ymchwilio i achau y teuluoedd a berchenogai'r tai, yn aml mae'n bosibl i wirio os oeddynt yn ddisgynyddion i deuluoedd uchelwrol, neu os oeddynt yn fwy tebygol o fod wedi bod yn denantiaid/warantwyr a oedd wedi ffynnu a dod yn rhydd-ddeiliaid ac iwryn.

Gill Jones 2019

The other houses so far researched in Conwy and the Clwyd Valley, most of which are little more than large farmhouses, would have almost certainly been built by members of the 1.) Welsh gentry 2.) descendants of English settlers who had married into the local gentry 3.) yeomen, but certainly not by 'peasants'. The gentry families had many cadet branches and some were able to establish their own small estates. Others who were less well off may even have had to derive part of their income from farming. This would have made them almost indistinguishable from the wealthier yeoman.

By researching the pedigrees of the families who owned the houses, it is often possible to ascertain whether they were descendants of noble families, or whether they were more likely to have been tenants/bondsmen who had thrived and become freeholders and yeomen.

Gill Jones 2019




Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales



Woodtiger Fund



Cambrian Archaeological
Association



MARC FITCH FUND